Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

## Hydref 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:



Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk



Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **1 Sefydlu diwylliant ar y cyd o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol** | **6** |
| **2 Trefniadau ymarferol ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth** | **9** |
| Sut mae ysgolion yn cynllunio arsylwadau ystafell ddosbarth a pha mor aml maen nhw'n digwydd? | 9 |
| Pwy sy'n arsylwi gwersi a pham? | 12 |
| Sut mae ysgolion yn datblygu medrau arsylwadol staff? | 15 |
| Sut mae ysgolion yn cofnodi arsylwadau ystafell ddosbarth yn effeithiol? | 17 |
| Sut mae ysgolion yn sicrhau cysondeb a thegwch mewn arsylwadau ystafell ddosbarth? | 19 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **21** |
| **Atodiad 2: Protocolau Llywodraeth Cymru ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth** | **22** |
| **Atodiad 3: Gwahanol fathau o arsylwi ystafelloedd dosbarth** | **25** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **30** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor am arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn 2013-2014. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid, staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i rieni a staff mewn sectorau eraill ac asiantaethau sy'n gweithio gydag ysgolion i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 1.

## Cefndir

Mae ysgolion yn arsylwi addysgu mewn ystafelloedd dosbarth ac yn cefnogi gwaith am ystod eang o resymau, gan gynnwys:

- rhannu arfer effeithiol ymhlith staff;
- datblygu dulliau a medrau penodol a ffyrdd arloesol o addysgu;
- arfarnu ansawdd amser tiwtor dosbarth;
- arfarnu ansawdd darpariaeth oddi ar y safle y mae gan yr ysgol gyfrifoldeb amdani, er enghraifft darpariaeth 14-19;
- rhannu arfer effeithiol gydag ysgolion eraill;
- datblygu medrau athrawon trwy gymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol;
- deall arfer effeithiol mewn sectorau eraill: cynradd/uwchradd, uwchradd/addysg bellach;
- mentora a hyfforddi athrawon mewn swydd, staff cymorth ac athrawon dan hyfforddiant;
- arsylwi athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon datblygiad proffesiynol cynnar ar y rhaglen Meistri mewn addysg;
- helpu llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddysgu disgyblion a bywyd a gwaith yr ysgol trwy brofiad uniongyrchol,
- sefydlu ansawdd addysgu ymgeiswyr wrth wneud cais am swydd yn yr ysgol;
- olrhain disgyblion unigol i arsylwi eu profiadau dysgu a'u cynnydd;
- monitro ymddygiad disgyblion;
- monitro amcanion ysgolion;
- adolygiadau pwnc/adrannol/grwpiau blwyddyn;
- adolygiad ysgol; a
- rheoli perfformiad.

I gael rhagor o esboniadau am y gwahanol fathau hyn o arsylwadau ystafell dosbarth a'u dibenion, gweler Atodiad 3.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu trafodaeth am y graddau y mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn fuddiol i godi safonau cyflawniad disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu, ac ynghylch pa mor aml y dylid arsylwi athrawon. Yn 2013, cyhoeddodd

Llywodraeth Cymru arweiniad a phrotocolau ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth. Mae hyn wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac ar wefan Dysgu Cymru yn http://learning.wales.gov.uk/yourcareer/continuingprofessionaldevelopment/?skip=1&lang=cy

Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-2013, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn nodi: "Mae ansawdd yr addysgu mewn ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar y safonau y bydd disgyblion yn eu cyflawni. Hwn yw'r ffactor unigol pwysicaf o ran helpu disgyblion i gyflawni'u potensial". Dros y tair blynedd diwethaf, mae arolygiadau Estyn yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi dirywio. Mewn ysgolion cynradd, cynyddodd cyfran yr ysgolion lle mae'r addysgu'n ddigonol neu'n anfoddhaol ar y cyfan o 18% i 26%. Dros yr un cyfnod, disgynnodd cyfran yr addysgu rhagorol o 3% i 1%. Mae darlun tebyg ar y cyfan mewn ysgolion uwchradd, lle mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr ysgolion yn 2012-2013, a lle mae cyfran yr addysgu sy'n ddigonol neu'n anfoddhaol wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf.

Prif ffocws yr adroddiad arolwg hwn yw nodi'r modd y mae ysgolion yn defnyddio arsylwi ystafelloedd dosbarth yn y ffordd fwyaf effeithiol i wella safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r arolwg hwn yn nodi'r modd y gall arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol helpu athrawon i wella addysgu a dysgu a helpu arweinwyr i wella i gefnogi mentrau a fydd yn gwella datblygiad proffesiynol pob aelod o staff.

## Prif ganfyddiadau

1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff ystafelloedd dosbarth eu harsylwi am ystod eang o resymau. Yn benodol, mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol i arweinwyr ysgol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgol ac mae'n offeryn rheoli pwysig. Pan fydd arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol o ran gwella addysgu a dysgu, caiff ei gyfuno â gweithgareddau eraill, fel craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr, i roi darlun cyflawn o addysgu a dysgu yn hytrach na chipolwg ar wers benodol.

2 Pan fydd arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol, mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gweld arsylwi ystafelloedd dosbarth yn hawl broffesiynol ac yn rhan annatod o waith tîm effeithiol. Mae staff yn awyddus i rannu arfer a chefnogi dysgu proffesiynol ei gilydd. Mae hyn yn digwydd pan fydd arweinwyr:

- yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer cyflawni safonau uchel ac ar gyfer ansawdd yr addysgu a'r dysgu y maent yn dymuno'i gyflawni;
- yn eglur ynghylch dibenion arsylwi ystafelloedd dosbarth mewn polisïau ysgol;
- yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff sy'n deillio o arsylwi ystafelloedd dosbarth a chyswllt â blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion datblygu unigolion;
- yn sensitif i bryderon staff a materion yn ymwneud ag ymreolaeth broffesiynol;
- yn dosbarthu rolau arwain fel bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu a'u deall ar draws yr ysgol;
- yn diweddaru eu dysgu proffesiynol eu hunain yn rheolaidd; ac
- yn recriwtio staff sy'n rhannu ethos a nodau'r ysgol ac yn meddu ar gydbwysedd o ran medrau a phrofiad.

3 Yn ymarferol, mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn fwyaf effeithiol:

- pan fydd gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o ddibenion unrhyw arsylwi ac yn gwybod pryd y bydd yr arsylwi'n digwydd;
- pan fydd yr athro a'r arsyllwr yn cael amser cyn yr arsylwi i drafod ffocws yr arsylwi a rhannu gwybodaeth berthnasol am y dosbarth;
- pan fydd arsylwadau addysgu yn canolbwyntio'n glir ar y graddau y mae'n helpu disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd da, ac ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion;
- pan fydd arsylwadau addysgu a dysgu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth

sy'n cynnwys mwy nag un ymweliad ag ystafell ddosbarth, cynllunio, cofnodion asesu, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar ddysgwyr;

- pan fydd arsyllwyr yn defnyddio ffurflenni sy'n addas ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r arsylwi;
- pan fydd yr aelod o staff sy'n cael ei arsylwi yn cael cyfle i gael adborth a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol cyn gynted ag y bo modd;
- pan fydd arsylwadau fel arfer yn para rhwng tri deg a chwe deg munud;
- pan fydd arsyllwyr yn sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r arsylwi;
- pan fydd yr holl arsylwadau y mae angen barnau ar eu cyfer yn cael eu safoni i sicrhau cysondeb;
- pan fydd arsyllwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio disgrifwyr barn yn gywir a chyson i sicrhau cydraddoldeb a thegwch;
- pan fydd cylch hunanarfarnu blynyddol yn cynnwys arsylwadau rheoli perfformiad wedi'u hamserlennu ac arsylwadau i fonitro cynnydd yr ysgol yn erbyn targedau yng nghynllun gwella'r ysgol; a
- phan fydd yr ysgol yn ystyried arsylwadau ystafell ddosbarth ffurfiol wrth adolygu targedau gwella.

## Argymhellion

**Dylai arweinwyr ysgol:**

A1 sefydlu diwylliant ar y cyd o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol fel bod pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau;

A2 sefydlu arferion hunanarfarnu sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwadau ystafelloedd dosbarth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu;

A3 datblygu polisïau ac arferion clir ac eglur ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth, y mae pob un o'r staff yn eu deall a'u cymhwyso;

A4 cynnal deialog broffesiynol gydag athrawon a staff cymorth yn fuan ar ôl arsylwi ystafell ddosbarth;

A5 trefnu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff, wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n cynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth, sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau unigol;

A6 ar gyfer arsylwadau ystafell ddosbarth y mae angen barnau ar eu cyfer, datblygu disgrifwyr barn a gweithdrefnau safoni i sicrhau cysondeb; a

A7 hyfforddi fel arolygwyr cymheiriaid er mwyn gallu alinio a rhannu eu harfer ag arfer rhai eraill fel arolygwyr.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A8 helpu ysgolion sydd â diwylliannau cryf o ran gwella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol ac arsylwi ystafelloedd dosbarth i rannu eu harfer ag ysgolion eraill.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 roi cyfleoedd i ysgolion sydd â diwylliannau cryf o ran gwella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol ac arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol rannu eu harfer ar wefan Dysgu Cymru.

## 1 Sefydlu diwylliant ar y cyd o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol

4 Mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn fwyaf effeithiol mewn ysgolion sydd â gweledigaeth strategol glir o sut i gyflawni addysgu a dysgu o ansawdd uchel, diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus a gweithio mewn tîm.

### Astudiaeth achos 1: Gweledigaeth strategol glir ar gyfer addysgu a dysgu, hunanarfarnu a hunanwella

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn awdurdod lleol Abertawe yw **Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed**. Mae tua 39% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd o 17.7% ar gyfer Cymru. Mae 33% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21.7% ar gyfer disgyblion uwchradd.

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer addysgu a dysgu yn yr ysgol. Maent yn rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda phob un o'r staff a'r disgyblion trwy'r Datganiad Polisi ar Addysgu a Dysgu.

Dyma yw gweledigaeth yr ysgol:

*"Bydd disgyblion o bob gallu yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn cael cyfle cyfartal i ddysgu er mwyn cyflawni eu llawn botensial. Bydd dulliau a strategaethau addysgu amrywiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol a phriodol i gynnig arddulliau dysgu gwahanol.*

*"Hunanarfarnu gan yr ysgol yw'r allwedd i wella er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn unol â'r cylch cynllunio gwelliant ysgol gyfan.*

*"Cyfrifoldeb pob un o'r staff a'r disgyblion yw arfarnu eu perfformiad eu hunain. Trwy wybod a deall sut mae staff a disgyblion yn perfformio, gall staff ar bob lefel wella a rhannu cryfderau a nodi potensial ar gyfer gwella*."

Caiff addysgu a dysgu eu gosod mewn diwylliant clir o hunanwella trwy ffocws cadarnhaol ar ddatblygiad personol. Caiff y weledigaeth ei hategu gan ddatganiadau am nodau cyffredinol yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'n rhoi arweiniad clir i staff am y disgwyliadau ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer addysgu, defnyddio arddulliau addysgu, gofynion ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd, darparu cymorth dysgu a disgwyliadau bod athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'n esbonio rôl athrawon dosbarth, tiwtoriaid dosbarth, penaethiaid cyfadrannau ac adrannau, arweinwyr y cwricwlwm, cydlynwyr dysgu a rheolwyr pontio a'r tîm arweinyddiaeth mewn monitro ac arfarnu dysgu disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae'n nodi disgwyliadau clir o gyfraniadau disgyblion at ddatblygu eu dysgu eu hunain. Mae'r polisi'n nodi'n glir y graddfeydd amser ar gyfer adolygiadau o gyfadrannau, adrannau a phynciau hefyd a phwy fydd yn cyfrannu at yr adolygiadau.

Dyma yw effaith cael datganiad polisi clir ar addysgu a dysgu:

- mae'n nodi disgwyliadau clir; ac
- mae pob un o'r staff a'r disgyblion yn glir ynglŷn â'u rolau mewn sicrhau deilliannau da ac addysgu o ansawdd uchel.

5 Mewn ysgolion fel Cefn Hengoed, mae staff addysgu a staff cymorth yn croesawu arsylwi ystafelloedd dosbarth a'r cyfle cysylltiedig i gael trafodaeth broffesiynol am addysgu a dysgu. Maent yn ei weld yn rhan bwysig o ystod o weithgareddau i hyrwyddo addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Maent yn gweld arsylwi ystafelloedd dosbarth yn hawl i ddatblygiad proffesiynol ac fel rhan annatod o weithio mewn tîm yn yr ysgol. Mae gan athrawon a staff cymorth yn yr ysgolion hyn ffocws clir ar wella'u medrau addysgu a chymorth er budd eu disgyblion. Maent yn agored i rannu eu harfer ac yn dysgu oddi wrth bobl eraill. Mae ganddynt farn glir fod parhau i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau eu hunain yn gyfrifoldeb proffesiynol. Maent yn teimlo eu bod nhw eu hunain yn atebol i'w disgyblion, y rhieni a'r ysgol am sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i ddysgu. O ganlyniad, mae'r athrawon hyn yn cael mwy o foddhad o'u gwaith ac, yn aml, fe geir tystiolaeth fod safonau uchel yn cael eu cynnal neu'u gwella.

6 Mewn ysgolion sydd â diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol, mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a'u staff, ac maent yn cyfleu'r disgwyliadau hyn yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi cyfleoedd wedi'u hamserlennu ar waith i staff gasglu a thrafod tystiolaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r amcanion yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd wedi'u hamserlennu i staff cymorth gyfrannu fel rhan o'r tîm ysgol gyfan. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl dystiolaeth berthnasol wrth adolygu cynnydd yr ysgol yn erbyn ei hamcanion. Maent yn nodi materion yn gynnar ac maent yn drylwyr wrth fynd i'r afael â nhw a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach ar lefel ysgol gyfan. Mae uwch arweinwyr yn ategu'r systemau hyn gyda dyddiadau adrodd ac adolygu wedi'u hamserlennu. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i adolygu'r dystiolaeth a gweithredu mewn ffordd amserol i addasu cynlluniau a phrosesau yn ôl yr angen.

7 Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr yn seilio barnau am ansawdd cyffredinol perfformiad athrawon ar un wers yn unig. Mae arweinwyr yn ymwybodol y gall athro da gael wers wael ac y gall athro gwael gael gwers dda. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod, fel rhan o'r broses arsylwi, yn arsylwi athrawon fwy nag unwaith ac yn adolygu'r ffordd y mae athrawon yn cynllunio, marcio ac asesu gwaith disgyblion yn systematig. Yn bwysicaf, mae ganddynt ffocws clir ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a'r safonau y maent yn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd. Mewn ysgolion lle caiff ystafelloedd dosbarth eu harsylwi mewn modd effeithiol, mae staff yn cymryd rhan lawn yn y prosesau hunanarfarnu sydd ar waith yn yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn penodi staff sy'n rhoi gwerth uchel ar ddatblygu eu harfer eu hunain ac sy'n cefnogi ethos 'ysgol sy'n dysgu'. Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod staffio yn yr ysgol yn darparu cydbwysedd priodol o ran medrau, profiad ac arbenigedd cyhyd ag y bo modd, fel bod staff yn gallu dysgu'n effeithiol oddi wrth ei gilydd.

8 Nodwedd benodol mewn ysgolion sydd â diwylliant cryf o hunanarfarnu a gwella yw bod uwch arweinwyr yn rhoi hyfforddiant i bob un o'r staff ar sut i ddadansoddi gwybodaeth a data ystadegol ar berfformiad disgyblion yn effeithiol er mwyn gwella dysgu ac addysgu. Pan fydd gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth dda o wybodaeth am berfformiad, data ystadegol a'r defnydd a wneir ohono, mae'r ysgol fel arfer yn fwy effeithiol wrth godi safonau cyflawniad disgyblion.

9 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae uwch arweinwyr yn dosbarthu rolau arwain ymhlith y staff. Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn cael cyfle i arwain ar gasglu tystiolaeth ar gyfer meysydd i'w datblygu neu'u hymchwilio. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cynnwys gofyn i staff cymorth arwain ar fenter sy'n briodol i'w gwaith. Mae dosbarthu arweinyddiaeth yn aml yn helpu staff i weithio gyda'i gilydd fel tîm sydd â diben cyffredin a lefelau cadarn o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

10 Pan fydd diwylliant cryf o hunanarfarnu a hunanwella, mae uwch arweinwyr yn rhoi gwerth uchel i barhau â'u dysgu proffesiynol eu hunain a dysgu proffesiynol eu staff. Maent yn deall bod angen i athrawon a chynorthwywyr addysgu adolygu eu medrau a'u dulliau addysgu i sicrhau bod disgyblion yn gallu cyflawni eu llawn botensial. Mae uwch arweinwyr ag ymrwymiadau addysgu yn aml yn gwahodd staff i'w hystafelloedd dosbarth eu hunain i'w gwylio yn addysgu. Fel hyn, maent yn gweithredu fel modelau rôl i staff eraill ac maent yn helpu i greu hinsawdd o ddidwylledd a diwylliant o hunanarfarnu yn yr ysgol.

**Astudiaeth achos 2: Datblygu diwylliant o hunanwella a hunanarfarnu parhaus trwy arweinyddiaeth ddosbarthedig**

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn awdurdod lleol Sir y Fflint yw **Ysgol Gynradd Sirol Sandycroft**. Mae tua 24% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.7%. Mae 16% o ddisgyblion yn yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21.5% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Gweledigaeth y pennaeth yw datblygu medrau arwain pob un o'r staff i sicrhau cysondeb ac atebolrwydd ar gyfer gwaith yr ysgol a pharatoi staff i fod yn arweinwyr y dyfodol. Mae ei weledigaeth yn deillio o hyfforddiant arweinyddiaeth gyda chwmni gweithgynhyrchu moduron rhyngwladol, y mae'r uwch arweinwyr yn ymgysylltu'n barhaus â phob un o'r staff wrth chwilio am ffyrdd o wella'r cwmni.

Mae'r pennaeth wedi dosbarthu rolau arwain i athrawon a staff cymorth fel ei gilydd, yn seiliedig ar eu cryfderau a'u harbenigedd. Mae gan bob un o'r staff rolau diffiniedig. Caiff eu heffeithiolrwydd yn eu rolau ei ategu gan ddatblygiad proffesiynol rheolaidd sydd wedi'i gysylltu'n agos â'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth wedi hyfforddi'n arolygwyr cymheiriaid Estyn. O ganlyniad, maent wedi defnyddio'r hyn y gwnaethant ei ddysgu i hyfforddi pob un o'r staff addysgu a'r staff cymorth mewn medrau arsylwi ystafelloedd dosbarth.

Heblaw am arsylwadau rheoli perfformiad, mae athrawon a staff cymorth yn trefnu arsylwadau ymhlith ei gilydd yn rheolaidd i wella agweddau allweddol ar y

ddarpariaeth.  Er enghraifft, mae cynorthwyydd cymorth addysgu sydd wedi bod yn astudio ar gyfer gradd mewn Cymraeg wedi defnyddio'r hyfforddiant arsylwi ystafelloedd dosbarth i arsylwi pob aelod o staff yn addysgu Cymraeg.  Nododd athrawon a staff cymorth sydd ag arfer effeithiol a rhannwyd hyn gydag aelodau eraill o staff yn y cyfarfod staff wythnosol.

Mae dyrannu rolau arwain ar gyfer pob un o'r staff wedi arwain at lefel uchel o ddidwylledd, ymddiriedaeth a pharch proffesiynol ymhlith uwch arweinwyr, athrawon a staff cymorth.  Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at ddiwylliant cadarn o gymorth, her a datblygiad proffesiynol ar y cyd.  O ganlyniad,  mae uwch arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflawni uchelgeisiau'r ysgol ar gyfer ei disgyblion.

11 Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr yn ymgymryd â chymwysterau addysg uwch sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o theori ac arfer dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.  Mae llawer o uwch arweinwyr yn hyfforddi i fod yn arolygwyr cymheiriaid Estyn sy'n arolygu ysgolion eraill.  Yn y rôl hon, maent yn cymryd rhan mewn arolygiadau lle maent yn datblygu eu medrau arsylwadol, dadansoddol ac arfarnol ymhellach.  Defnyddiant y medrau y maent yn eu datblygu ar arolygiad i wella ansawdd hunanarfarnu, addysgu a dysgu yn eu hysgol eu hunain ac maent yn dysgu eu staff eu hunain ynglŷn â'r ffordd orau o arsylwi gwersi.

12 Mewn rhai ysgolion, lle nad yw'r diwylliant o hunanarfarnu a hunanwella wedi'i sefydlu'n dda, mae rhai athrawon a staff cymorth yn rhy bryderus ynghylch arsylwi ystafelloedd dosbarth.  Maent yn credu bod arsylwadau ystafelloedd dosbarth yn digwydd yn rhy aml neu'n rhy feirniadol, ac maent yn teimlo bod arsylwi ystafelloedd dosbarth yn lleihau eu hymreolaeth broffesiynol.  Mewn rhai achosion, nid yw aelodau o staff yn myfyrio'n rheolaidd ar eu harfer eu hunain ac nid ydynt yn croesawu trafodaeth broffesiynol gyda chydweithwyr eraill.  Mewn rhai achosion, nid yw arweinwyr yn gwneud y rhesymau dros arsylwi ystafelloedd dosbarth yn ddigon clir ac fe gaiff arsylwadau ystafelloedd dosbarth eu hamserlennu'n annisgwyl.  Mae hyn yn creu pryder ymhlith staff.  Gall yr amgylchiadau hyn gynyddu diffyg ymddiriedaeth broffesiynol rhwng staff ac arweinwyr.  O ganlyniad, mae'n anodd i'r ysgol arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol ac i arweinwyr sicrhau eu hunain bod pob un o'r disgyblion yn cael profiadau dysgu teg.

## 2  Trefniadau ymarferol ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth

### Sut mae ysgolion yn cynllunio arsylwadau ystafell ddosbarth a pha mor aml y maent yn digwydd?

13 Yn yr ysgolion prin lle mae arfer yn effeithiol, mae polisïau'r ysgol yn nodi'n glir beth yw'r dibenion a'r trefniadau ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth.  Mae hyn yn helpu i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth gyson am y rhesymau a'r esboniadau am arsylwi ystafelloedd dosbarth.

14 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw'r polisi 'addysgu a dysgu' neu 'fonitro' yn cyfeirio'n eglur at arsylwi ystafelloedd dosbarth. O ganlyniad, nid yw staff weithiau'n glir am y rhesymau dros arsylwi ystafelloedd dosbarth, beth mae'n ei gynnwys neu'r hyn y mae'n anelu at ei gyflawni. Mae uwch arweinwyr yn aml yn atgoffa staff am y diben a'r gweithdrefnau ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth trwy hysbysiadau neu neges e-bost cyn yr arsylwi. Fel arfer, caiff y rhain eu cyhoeddi yn agos at yr amser a drefnwyd ar gyfer arsylwi'r ystafell ddosbarth. Mae'r hysbysiadau yn ddefnyddiol, ond nid ydynt bob amser yn helpu staff i ddeall rôl arsylwi ystafelloedd dosbarth yn y cynllun cyffredinol ar gyfer hunanwella.

15 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arsylwi cymheiriaid (athrawon yn arsylwi arfer ei gilydd) yn digwydd yn amlach lle mae athrawon yn rhan o gymunedau dysgu proffesiynol neu weithgorau mewnol neu allanol. Mae athrawon fel arfer yn cynllunio'r arsylwadau hyn ymlaen llaw i gyd-fynd â rhaglen cymuned ddysgu broffesiynol neu weithgor. Nid yw athrawon fel arfer yn ystyried yr arsylwadau hyn fel rhan o arsylwi ystafell ddosbarth yn ffurfiol, ond yn hytrach fel cyfleoedd datblygiad proffesiynol gonest ac agored i gefnogi athrawon unigol yn eu gwaith. Nid yw arsylwadau cymheiriaid fel arfer yn cynnwys barn am ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

16 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn cynllunio amserlenni ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth yn ffurfiol ar hyd y flwyddyn, gan wneud yn siŵr nad yw athrawon yn cael eu harsylwi'n rhy aml. Mae arweinwyr yn arsylwi athrawon, ac mewn llawer o achosion, yn cynorthwyo staff bedair i chwe gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd at ddibenion monitro a datblygu. Y cyfnod cyfartalog ar gyfer yr arsylwi yw rhwng 30 a 60 munud, yn dibynnu ar ddiben a ffocws yr arsylwi**.**

**Astudiaeth achos 3: Cynllunio arsylwadau ystafell ddosbarth**

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn awdurdod lleol Ynys Môn yw **Ysgol Corn Hir**. Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.7%. Mae 11% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, sef 21.5%.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer dau arsylwad ystafell ddosbarth ffurfiol bob blwyddyn academaidd. Mae uwch arweinwyr yn rhannu amserlenni ar gyfer arsylwadau gyda staff ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu hyfforddiant mewn arsylwi ystafelloedd dosbarth i bob aelod o staff pob blwyddyn. Mae hyn yn helpu i wneud pob un o'r staff yn ymwybodol o'r broses, ffocws yr arsylwadau a'r dystiolaeth sydd ei hangen i arsyllwyr lunio barn ddibynadwy.

Mae'r arsylwad cyntaf yn canolbwyntio ar dargedau rheoli perfformiad, tra bod yr ail arsylwad yn canolbwyntio ar darged allweddol yng nghynllun datblygu'r ysgol. Yn y ddau arsylwad, mae ffocws allweddol arsyllwyr ar gynnydd disgyblion yn ystod y wers a'r modd y mae'r strategaethau a ddefnyddir gan yr athro yn helpu gwahanol grwpiau o ddisgyblion i wneud cynnydd. Mae arsyllwyr yn nodi hefyd pa mor effeithiol y caiff staff cymorth eu defnyddio yn y wers a'r cynnydd a wna disgyblion a gynorthwyir. Mae ffocws bob amser ar ddatblygu medrau disgyblion mewn

llythrennedd a rhifedd. Mae arsyllwyr bob amser yn craffu ar gynllun y wers a gwaith disgyblion i lunio barn am eu cynnydd dros gyfnod. Maent yn llunio barn am ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn llyfrau disgyblion ynghylch p'un a yw'n cyd-fynd â'r polisi marcio ac asesu a ph'un a fu gweithgarwch dilynol priodol gyda disgyblion.

I sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n effeithiol, mae arsyllwyr yn defnyddio'r un ffurflen arsylwi i gofnodi eu harsylwadau. Cyn y wers, gallai athrawon gynllunio eu gwersi gydag aelod arall o staff. Mae'r arsyllwr a'r rhai sy'n cael eu harsylwi bob amser yn trafod y wers yn syth ar ôl hynny ac mae'r arsyllwr yn darparu arfarniad ysgrifenedig o gynnydd disgyblion yn ystod y wers a'r strategaethau mwyaf effeithiol a ddefnyddiwyd i herio pob grŵp o ddysgwyr.

Pan fydd staff a arsylwyd yn anghytuno â'r adolygiad o'u gwers, gallent ofyn bod aelod uwch arall o staff o'u hysgol eu hunain neu ysgol arall yn cynnal arsylwad arall.

Mae'r cynllunio clir hwn ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael digon o amser i baratoi a'u bod yn cael eu trin yn deg.

17 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd arsylwi ystafelloedd dosbarth oedd yn gysylltiedig yn benodol ag amcanion rheoli perfformiad yn digwydd unwaith y flwyddyn, oni bai bod yr athro'n gofyn am ail ymweliad, neu os oedd uwch arweinwyr wedi nodi tanberfformio.

18 Mewn ychydig iawn o achosion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nododd pennaeth newydd nad oedd safonau cyflawniad disgyblion yn ddigon uchel oherwydd anghysondebau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Yn yr achosion hyn, fe wnaeth uwch arweinwyr arsylwi athrawon yn ffurfiol yn amlach, ond fe wnaethant hefyd ddarparu rhaglen fentora a hyfforddi i staff penodol eu cynnal ochr yn ochr â'r rhaglen ffurfiol ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth. Fe wnaeth hyn helpu athrawon a staff cymorth i ddatblygu disgwyliadau ar y cyd o'r disgyblion a dull cyson o addysgu ar draws yr ysgol.

### Astudiaeth achos 4: Arsylwi fel rhan o fentora a hyfforddi

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn awdurdod lleol Sir Fynwy yw **Ysgol Gynradd Deri View**. Mae tua 42% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.7%. Mae 12% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, sef 21.5%.

Ar ôl cychwyn ar ei swydd yn yr ysgol, dadansoddodd y pennaeth newydd ddata'r ysgol a sylweddoli nad oedd cyrhaeddiad disgyblion mor uchel ag y gellid ei ddisgwyl. Cynhaliodd gyfres o arsylwadau i lunio'i barnau ei hun am ansawdd y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol. Nododd fod anghysondebau yn yr addysgu, ac anghysondebau yng nghyfraddau cynnydd a chyflawniad disgyblion o ganlyniad.

I gynorthwyo athrawon i wella'u harfer, daeth y pennaeth ag ymgynghorydd i'r ysgol. Arsylwodd yr ymgynghorydd rai athrawon penodol. Yn dilyn yr arsylwi, trafododd yr ymgynghorydd y wers gyda phob athro ac amlygu un neu ddau o feysydd lle y

byddai'n helpu i wella cymhelliant ac arfer disgyblion, pe bai'r athro'n newid ei arfer. Fe wnaeth yr ymgynghorydd a'r athro gynllunio gwers gyda'i gilydd. Wedyn, fe wnaeth yr ymgynghorydd addysgu'r rhan gytûn o'r wers, tra oedd yr athro'n arsylwi. Yn dilyn y wers, trafododd yr ymgynghorydd a'r athro arsylwadau'r athro. Fe wnaethant gynllunio gwers ddilynol gyda'i gilydd gan ganolbwyntio ar y strategaeth gytûn. Y tro hwn, rhoddwyd y strategaeth ar waith gan yr athro ac arsylwodd yr ymgynghorydd.

Yn dilyn yr ymyrraeth gan yr ymgynghorydd, cynhaliodd y pennaeth ail rownd o arsylwadau ystafell ddosbarth a chanfu fod anghysondeb mewn addysgu wedi lleihau a bod cymhelliant a chyfraddau cynnydd disgyblion wedi gwella.

Fel hyn, trwy gymryd camau bach a ffocysedig, fe wnaeth arsylwadau ystafell ddosbarth helpu athrawon i wella eu harfer nhw a chyflawniadau disgyblion.

19 Mae hyd y cyfnod rhybudd a roddir i athrawon ynghylch arsylwadau ystafell ddosbarth ffurfiol yn amrywio o un ysgol i'r llall. Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr yn rhoi gwybod i'r athro pa wers benodol y bydd yn ei harsylwi. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'n well gan uwch arweinwyr roi rhybudd ynghylch cyfnod (er enghraifft, deuddydd) a byddant yn dewis gwers i'w harsylwi yn ystod y cyfnod hwn.

20 Yn achos adolygiad ysgol, adolygiadau adrannol neu adolygiadau grŵp blwyddyn, mae uwch arweinwyr fel arfer yn rhoi gwybod ymhell ymlaen llaw am wythnos yr adolygiad fel bod arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn gallu paratoi eu tystiolaeth yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trin yr adolygiad fel arolygiad bach ac nid ydynt yn rhoi gwybod i athrawon ymlaen llaw pa wersi y byddant yn eu harsylwi yn yr wythnos sydd wedi'i hamserlennu.

21 Mewn lleiafrif o achosion effeithiol iawn, mae arsyllwyr yn neilltuo amser cyn yr arsylwi er mwyn iddynt allu trafod cynllun yr athro, cynnydd y disgyblion a'r amcanion dysgu a fwriedir gyda'r athro. Mae hyn yn helpu'r arsyllwr, os nad yw'n gyfarwydd â'r dosbarth, i lunio barn fwy cywir am gynnydd disgyblion yn ystod y wers a datblygu dealltwriaeth ar y cyd ar gyfer trafodaeth broffesiynol yn dilyn yr arsylwi.

22 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arsyllwyr yn trafod eu barnau am y wers cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arsylwi. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae uwch arweinwyr yn neilltuo amser ar gyfer adborth, tua 30 i 40 munud gan amlaf. Mae athrawon yn gweld y sesiwn adborth yn hynod ddefnyddiol pan gaiff ei chynnal mewn ystafell lle nad oes tarfu ar yr arsyllwr a'r athro. Mae'n tueddu i fod yn fwy pwrpasol a buddiol hefyd pan fydd yr adborth yn digwydd ar ffurf deialog broffesiynol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae arsyllwyr yn gofyn i athrawon roi eu myfyrdod eu hunain ar y wers cyn i'r arsyllwr roi adborth. Mae trafodaeth effeithiol yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn llwyddiannus yn y wers, yn enwedig mewn perthynas â'i heffaith ar ddysgu disgyblion. Pan fydd yn briodol, mae hefyd yn amlygu'n glir yr hyn nad oedd yn llwyddiannus a ble na wnaeth dysgwyr gynnydd addas o ganlyniad. Yn yr achosion hyn, mae'r arsyllwr yn gwahodd yr athro i gytuno ar dargedau i helpu'r athro i wella. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys nodi dim mwy na dau neu dri o faterion er mwyn galluogi'r athro i'w gwella mewn ffordd ffocysedig. Mae llawer o athrawon yn ei gweld yn fuddiol iawn cael y cyfle i fyfyrio gydag aelod arall o staff ar sut y gallent wella eu haddysgu.

23 Mae athrawon hefyd yn fwy cyfforddus ag arsylwi rheoli perfformiad pan fyddant yn ymwybodol nad yw eu hadolygiad o berfformiad yn deillio'n gyfan gwbl o'r dystiolaeth o un wers a arsylwyd, ond ei fod hefyd yn ystyried ffynonellau tystiolaeth perthnasol eraill, fel eu cynllunio a'u hasesu ac effaith eu haddysgu ar ansawdd gwaith disgyblion.

**Pwy sy'n arsylwi gwersi a pham?**

24 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn arsylwi gwersi ei gilydd trwy drefniadau mwy anffurfiol. Mae hyn yn aml yn digwydd pan fydd athrawon yn gweithio gyda'i gilydd ar draws sectorau i wella trefniadau pontio neu pan fydd athrawon mewn ysgol yn datblygu agwedd ar waith trwy gymuned ddatblygu broffesiynol neu weithgor.

25 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau ehangu sail y dystiolaeth ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth i gynnwys canfyddiadau disgyblion yn y gwersi a arsylwyd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu arfer dda wrth wrando ar ddisgyblion mewn grwpiau ffocws a thrwy ddefnyddio holiaduron.

26 Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd staff nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus â disgyblion yn gweithredu fel arsyllwyr mewn gwersi. Mae hyn fel arfer am nad yw staff yn teimlo ei bod yn briodol i ddisgyblion gymryd rôl mewn rhoi sylwadau ar wersi. Fodd bynnag, yn y nifer fach iawn o ysgolion lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn arsylwi gwersi, ceir rhaglen a gynlluniwyd yn ofalus a fformat penodol i ddisgyblion adrodd yn ôl am eu hargraffiadau. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn trefnu proses ddethol lle mae disgyblion yn mynegi diddordeb mewn arsylwi ac yn dangos sut y maent yn bodloni meini prawf uwch arweinwyr i gyflawni'r rôl. I sicrhau bod disgyblion yn gweithredu a chofnodi'n briodol, mae arweinwyr yn hyfforddi'r disgyblion a ddewiswyd yn y medrau sydd eu hangen.

**Astudiaeth achos 5: Disgyblion yn arsylwi gwersi**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn awdurdod lleol Caerdydd yw **Ysgol Uwchradd Mair Fendigaid**. Mae gan 29% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.7%. Mae 36% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig o gymharu â 21.7% mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn arsylwi gwersi fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol er 2011.

Mae'r pennaeth cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus yn dewis a hyfforddi disgyblion o ystod o grwpiau blwyddyn sy'n dangos y diddordeb a'r dyheadau priodol o ran sut i arsylwi ystafelloedd dosbarth.

Y ffocws allweddol yn arsylwadau'r disgyblion yw dysgu'r disgyblion yn y dosbarth, y medrau y mae'r disgyblion yn eu dysgu/gwella yn ystod y wers ac awyrgylch y dosbarth yn gyffredinol. Caiff pob adran ei chefnogi gan awgrymiadau i helpu'r disgyblion i roi ffocws i'w sylwadau. Dywedir wrth ddisgyblion yn glir iawn **nad** eu rôl nhw yw beirniadu'r addysgu, ond i arfarnu'r dysgu.

Mae'r hyfforddiant a gaiff disgyblion yn cynnwys:

- esboniad ynghylch pam y gofynnir i ddisgyblion arsylwi gwersi a nodi diben yr arsylwi;
- ymgyfarwyddo â meysydd ar y daflen arsylwi disgyblion a sut i gofnodi tystiolaeth yn briodol;
- ymarfer arsylwi gwersi a chofnodi sylwadau gan ddefnyddio clipiau fideo masnachol;
- trafod canfyddiadau; a
- phwyslais ar bwysigrwydd mynegi eu canfyddiadau a'u hawgrymiadau mewn ffordd ddefnyddiol.

Mae disgyblion yn arsylwi gwers gyda'r aelod o staff a neilltuwyd i arsylwi'r dosbarth. Yn dilyn y wers, maent yn trafod eu hadborth gyda'r athro sy'n arsylwi. Wedi iddo ystyried safbwyntiau'r disgyblion a'i arsylwadau ei hun, mae'r athro'n rhoi adborth i'r aelod o staff a arsylwyd.

Mae'r ysgol wedi gweld bod disgyblion, trwy eu cynnwys mewn arsylwadau ystafell ddosbarth, wedi dod i werthfawrogi pa mor galed y mae eu hathrawon yn gweithio ac yn rhoi adborth defnyddiol ar ba mor dda yr oedd disgyblion yn dysgu yn y dosbarth neu ble cafodd disgyblion anhawster. Mae hyn yn helpu i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol.

27 Mae arsyllwyr sy'n ddisgyblion yn mynd gyda'r aelod o staff i arsylwi ac maent yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae eu cyd-ddisgyblion yn ymateb i'r gweithgareddau dysgu yn y wers a pha mor dda y mae'r disgyblion yn dysgu yn ystod y wers. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arsyllwyr sy'n ddisgyblion yn rhoi eu hadborth i'r aelod o staff y maent wedi arsylwi'r dosbarth gyda nhw. Wedyn, mae'r arsyllwr staff yn cynnal y drafodaeth broffesiynol gyda'r aelod o staff a arsylwyd. Mewn rhai achosion, mae aelodau o staff sydd wedi cael eu harsylwi yn awyddus i gael safbwynt y disgybl am ymgysylltiad eu cymheiriaid â'r wers yn uniongyrchol.

28 Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn rheoli perfformiad ac yn monitro materion ysgol gyfan. Mewn ychydig iawn o achosion eithriadol, gallai pennaeth o ysgol arall gynnal yr adolygiadau perfformiad, er enghraifft pan fydd pennaeth ysgol fach yn absennol am resymau meddygol neu pan fydd ysgol yn cefnogi ysgol arall i godi safonau cyflawniad disgyblion.

29 Bron ym mhob achos, mae aelodau o'r awdurdod lleol neu dimau ymgynghorol consortia rhanbarthol (arweinwyr system neu ymgynghorwyr her) yn cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth mewn ysgolion. Mae hyn yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi barn annibynnol am waith yr ysgol a gall helpu i wella agweddau penodol ar ddarpariaeth yr ysgol.

**Astudiaeth achos 6a: Defnyddio arsyllwyr allanol i helpu'r ysgol i ddilysu ei barnau ei hun**

Ysgol ar gyfer disgyblion 11-18 oed yn awdurdod lleol Gwynedd yw **Ysgol Dyffryn Ogwen**. Mae tua 17% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n

cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.7%. Mae 22% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â 21.7% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn gweithredu system adolygu lle mae aelodau o'r consortia lleol yn cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth fel rhan o adolygiadau ysgol gyfan ac adrannol ochr yn ochr â'r pennaeth ac athrawon eraill sy'n arsylwi yn yr ysgol. Mae hyn yn ffurfio rhan o system adolygu arfaethedig. Mae'r adolygwyr i gyd yn defnyddio ffurflenni arsylwi mewnol yr ysgol er mwyn iddynt allu casglu'r dystiolaeth mewn ffordd systematig.

Mantais cael adolygydd allanol yw ei fod yn cynnig safbwynt gwahanol i'r adolygiad sydd wedi'i seilio ar brofiad yr unigolyn allanol o arsylwadau mewn ystod o gyd-destunau. Yn eu tro, mae uwch arweinwyr yn mynd i ysgolion eraill i arsylwi a safoni barnau. Mae hyn yn helpu'r ysgol i fesur a safoni ei barnau ei hun.

30 Mae llawer o ysgolion yn cynnwys unigolyn annibynnol wrth gynnal adolygiad mewnol. Yn amlach na pheidio, aelod o'r awdurdod lleol neu ymgynghorydd o'r consortiwm rhanbarthol yw hwn. Fodd bynnag, gallai ysgolion gynnwys uwch arweinydd o'r clwstwr o ysgolion neu'r teulu o ysgolion, neu gallent gynnwys ymgynghorydd i roi barn annibynnol.

31 Yn unol â'u cyfrifoldebau, mae consortia yn cynnal adolygiadau o gynnydd ysgolion. Mae hyn yn aml yn cynnwys arsylwadau gwersi yn ogystal ag adolygiad cyffredinol o bolisïau, systemau ac arferion yr ysgolion. Mae cynnwys pobl allanol mewn timau adolygu yn helpu ysgolion i fesur eu darpariaeth a'u perfformiad eu hunain yn erbyn mesur ehangach na'u rhai nhw eu hunain. Mae cynnwys adolygydd allanol yn hynod ddefnyddiol i uwch arweinwyr lle gallai fod problem ddadleuol yn yr ysgol. Gall yr annibyniaeth a ddarperir gan rywun o'r tu allan fod yn galonogol i athrawon.

### Astudiaeth achos 6b: Defnyddio partneriaid her i helpu'r ysgol i ddilysu ei barnau ei hun

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn awdurdod lleol Sir y Fflint yw **Ysgol Gynradd Sirol Sandycroft**. Mae tua 24% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.7%. Mae 16% o ddisgyblion yn yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, sef 21.5%.

Mae'r ysgol wedi sefydlu tîm o 'bartneriaid her'. Mae'r 'partneriaid her' yn dod o ardal yr awdurdod lleol ac yn cynnwys cydweithwyr sy'n arolygwyr wedi eu hyfforddi gan Estyn. Mae'r tîm yn cynnwys arolygydd cofrestredig, pedwar arolygydd cymheiriaid ac arolygydd lleyg[1]. Mae'r tîm yn cynnig her barhaus i'r ysgol. Trwy gydol y flwyddyn academaidd, mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd y tîm i herio'r ysgol wrth iddo

[1] Nid yw hyn yn cynrychioli gwrthdaro buddiannau gan nad yw Estyn yn neilltuo ysgolion i arolygwyr eu harolygu yn eu hawdurdod lleol cartref.

arfarnu ei chynnydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth wedi'u seilio ar drywyddau ymholi. Mae'r tîm yn helpu'r ysgol i ddadansoddi data'r ysgol yn drylwyr a gosod targedau priodol. Mae'r tîm yn adolygu'r adroddiad hunanarfarnu hefyd ac mae'n ei helpu i sicrhau bod cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n fanwl ar feysydd allweddol i'w datblygu.

O ganlyniad, mae'r 'partneriaid her' wedi helpu'r ysgol i ddatblygu her fewnol gadarn a gwella deilliannau disgyblion. Mae hunanarfarniad yr ysgol yn onest a chywir.

32 Mae hefyd yn gyffredin i arweinwyr canol gynnal arsylwadau ystafell ddosbarth, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i gasglu tystiolaeth am gynnydd disgyblion neu agweddau mwy penodol eraill ar waith yn ymwneud â'u maes cyfrifoldeb.

## Sut mae ysgolion yn datblygu medrau arsylwadol staff?

33 Ym mhob achos, mae arsylwi addysgu a dysgu yn fwyaf effeithiol pan fydd ysgolion yn rhoi hyfforddiant i staff (a disgyblion, lle bo'n berthnasol) ar fedrau arsylwi ystafelloedd dosbarth a sut i adrodd yn ôl am ganfyddiadau'r arsylwi yn broffesiynol ac yn effeithiol. Mae llawer o ysgolion sydd â threfniadau arsylwi da mewn ystafelloedd dosbarth yn hyfforddi eu staff yn ystod cyfarfodydd staff wedi'u hamserlennu. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, caiff pob un o'r staff hyfforddiant yn y ffyrdd mwyaf effeithiol i arsylwi addysgu a dysgu. Fel hyn, mae'r rhai sy'n arsylwi gwersi a'r rhai sy'n ffocws yr arsylwi yn rhannu dealltwriaeth ar y cyd o ofynion yr ysgol a dulliau arsylwi.

34 Nid yw'r arsyllwyr mwyaf effeithiol yn barnu gwersi yn ôl meini prawf goddrychol, er enghraifft sut y byddent wedi addysgu'r wers eu hunain. Mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol yn osgoi'r diffyg hwn ac yn sicrhau bod yr arsylwi yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae dysgu disgyblion yn elwa yn ystod y wers. Mae'r arsyllwr yn myfyrio ar y modd y gwnaeth strwythur y wers ac ystod y gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw helpu'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu neu p'un a wnaethant rwystro cynnydd disgyblion.

### Astudiaeth achos 7: Sicrhau bod arsyllwyr yn barnu'r hyn y maent yn ei weld yn deg

Ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn awdurdod lleol Sir Gâr yw **Ysgol Gynradd Hafodwenog**. Mae tua 0.9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.7%. Mae 27% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig o gymharu â 21.5% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae Ysgol Gynradd Hafodwenog yn ysgol fach sydd â 45 o ddisgyblion. I sicrhau bod arsyllwyr yn barnu'r hyn y maent yn ei weld yn deg, mae'r pennaeth a'r staff yn trafod pa fath o nodweddion sy'n enghraifft o ddysgu ac addysgu da neu ragorol fel eu bod yn sefydlu dealltwriaeth sylfaenol ar y cyd.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod ganddynt ffurflenni arsylwi gydag awgrymiadau sy'n briodol ar gyfer pob arsylwad y mae arsyllwyr yn ei gynnal. Mae hyn yn helpu'r

arsyllwr i gasglu tystiolaeth fanwl sy'n cysylltu'n glir â ffocws yr arsylwi – er enghraifft, defnyddio strategaethau 'asesu ar gyfer dysgu' i helpu disgyblion i fodloni eu targedau.

Mae tystiolaeth sy'n cael ei hawgrymu a'i chofnodi'n glir yn galluogi'r arsyllwr i ddarparu tystiolaeth â ffocws da i bawb sy'n cael ei arsylwi. Mae'n galluogi'r ysgol i gael darlun clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws yr ysgol a rhannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae lle i athrawon gofnodi eu sylwadau am yr arsylwi yn dilyn adborth llafar ac ysgrifenedig yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall pa mor deg a defnyddiol oedd y broses ym marn athrawon.

35 Mewn rhai achosion, yn enwedig lle mae ysgolion yn gweithio i ddatblygu addysgu o ansawdd mwy cyson ar draws yr ysgol, mae datganiad wedi'i gynnwys yn y polisi addysgu a dysgu am yr arferion y maent yn disgwyl i athrawon eu dangos mewn gwersi. Mae hyn yn galluogi pawb a arsylwyd, ac yn enwedig y staff hynny sy'n llai hyderus, i fyfyrio ar y nodweddion allweddol sydd eu hangen mewn gwersi a sut y gallant wella eu harfer.

**Sut mae ysgolion yn cofnodi arsylwadau ystafell ddosbarth yn effeithiol?**

36 Mae ysgolion yn amrywio'n fawr yn y ffordd y maent yn trefnu'r ffurflenni a ddefnyddir ganddynt i gofnodi arsylwadau ystafell ddosbarth. Mewn tua 90% o achosion effeithiol iawn, mae uwch arweinwyr ac arsyllwyr cymheiriaid yn sicrhau bod y ffordd y maent yn cofnodi'r arsylwadau gwersi yn cyd-fynd â diben yr arsylwi. Mae hyn yn galluogi arsyllwyr i ddadansoddi'r dystiolaeth o arsylwadau ystafell ddosbarth ac amlygu cryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

37 Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr ac athrawon yn teimlo ei bod yn bwysig peidio â chreu gwaith papur anhylaw. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at ffurflenni arsylwi sy'n cynnwys yn bennaf gyfres o flychau ticio yn erbyn rhestr o feini prawf gyda blychau bach ochr yn ochr â phob un ohonynt i ysgrifennu sylwadau a gosod targedau datblygu. Mantais y ffurflenni hyn yw eu bod yn rhoi trosolwg cyflym o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Gall ffurflenni arsylwi â ffocws craff fod yn ddefnyddiol hefyd wrth helpu arsyllwyr i ystyried agweddau penodol ar waith yr ysgol, er enghraifft pan fydd llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu neu'n ymweld ag ystafelloedd dosbarth.

38 Fodd bynnag, anfantais dull blychau ticio yw bod arsylwadau'n cael eu lleihau i set syml o nodweddion ac nid yw'n rhoi llawer o synnwyr o ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y wers yn gyffredinol. Hefyd, nid yw ffurflen blychau ticio yn aml yn ddefnyddiol wrth roi adborth manwl i'r athro ar sut i wella'i arfer. Ar y llaw arall, mae ffurflenni yn aml sy'n rhy agored neu ddistrwythur yn gallu arwain at ddiffyg ffocws ar y meysydd allweddol y mae'r arsyllwr yn casglu tystiolaeth amdanynt. Yn y naill achos a'r llall, mae gwendidau wrth gofnodi tystiolaeth yn tanseilio gallu'r arsyllwr i lunio barnau gwybodus a chywir am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gyffredinol.

39 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn cynllunio ffurflenni arsylwi sy'n galluogi'r arsyllwr i gofnodi sylwadau ansoddol a gwybodaeth ystadegol am ddysgu'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu sy'n cael ei arsylwi. Maent hefyd yn rhoi lle i'r aelod o staff a arsylwyd wneud sylw ysgrifenedig am yr adborth a lle i gofnodi targedau datblygiadol cytûn. At ei gilydd, mae'r ffurflenni hyn yn fwy defnyddiol wrth gofnodi arsylwadau gan eu bod yn rhoi tystiolaeth ffocysedig, fanwl ac uniongyrchol o'r dysgu a'r addysgu a welwyd i'r cyfranogwyr a'r aelod o staff sy'n goruchwylio dadansoddiadau ysgol gyfan o arsylwadau.

40 Mae llywodraethwyr yn dod ag ystod o fedrau gwerthfawr i'r ysgol, ond mae eu cefndiroedd fel arfer yn golygu nad ydynt yn gwbl ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r dulliau addysgu presennol. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cyrff llywodraethol yn neilltuo aelodau o'u timau i gysylltu â phynciau, meysydd dysgu neu agweddau penodol ar waith yr ysgol i'w helpu i gael tystiolaeth uniongyrchol. Mae'r gweithgareddau penodol hyn yn gwella cyfathrebu rhwng staff a llywodraethwyr ac maent yn helpu i lywio trafodaethau llywodraethwyr ar gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

41 Mewn llawer o achosion, mae llywodraethwyr yn cynnal 'teithiau dysgu', sy'n golygu eu bod yn mynd am dro o gwmpas yr ysgol i ddysgu mwy am ffocws penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff llywodraethwyr eu hannog i ddefnyddio ffurflenni arsylwi sydd fel arfer yn cael eu paratoi gan uwch arweinwyr. Mae'r ffurflenni hyn yn helpu llywodraethwyr i ganolbwyntio ar faterion allweddol yr agwedd y maent yn ymchwilio iddi. Mae'r cofnod ysgrifenedig o'u harsylwadau yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol dda i lywodraethwyr er mwyn trafod gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethol ac mae'n cyfrannu at hunanarfarniad yr ysgol.

42 Mewn ychydig iawn o achosion, gallai llywodraethwyr fynd gydag uwch aelod o staff i arsylwi dysgu effeithiol ac addysgu o ansawdd da. Yn yr achos hwn, yr uwch aelod o staff sy'n arsylwi, ond mae'n amlygu i'r llywodraethwr beth yw dysgu ac addysgu da yn y wers.

### Astudiaeth achos 8: Arsylwadau gan lywodraethwyr

Ysgol gyfun cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yw **Ysgol Gyfun Sandfields**. Mae tua 40% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd o 17.7% ar gyfer Cymru. Mae 42% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig o gymharu â 21.7% mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae llywodraethwyr yn ymweld ag ysgolion yn gynyddol yn ystod y diwrnod ysgol i gael mwy o wybodaeth uniongyrchol am ddarpariaeth yr ysgol, a dealltwriaeth ohoni, pa mor dda y mae disgyblion yn dysgu ac ansawdd yr addysgu.

I helpu llywodraethwyr i ddeall y modd y mae athrawon yn cynllunio i fodloni gwahanol anghenion dysgwyr yn eu dosbarthiadau, mae'r ysgol wedi cyflwyno system lle gall llywodraethwr fynd gyda'r pennaeth, neu un o'r uwch staff, i arsylwi ystafell ddosbarth. Nid yw arsylwadau ystafell ddosbarth yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu mewn meysydd pwnc yn unig ond hefyd ar y defnydd a wneir o amser bugeiliol ar ddechrau'r ysgol yn y bore.

Mae uwch arweinwyr yn trafod nodau ac amcanion y wers gyda'r llywodraethwr ymlaen llaw, fel bod gan y llywodraethwr gyd-destun ar gyfer y wers. Mae'r uwch arweinydd yn arsylwi, ac yn cofnodi'r dystiolaeth a'r pwyntiau i'w trafod gyda'r athro. Yn ystod y wers, gallai'r llywodraethwr wneud ei nodiadau ei hun i'w trafod a'u hegluro wedyn. Fodd bynnag, yr uwch arweinydd yn unig sy'n llunio unrhyw farn am ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Ar ôl y wers, mae cyfle i'r llywodraethwr arsylwi trafodaeth yr uwch arweinwyr gyda'r athro. Yn dilyn yr adborth, mae cyfle i'r llywodraethwr drafod y wers a arsylwyd gyda'r uwch arweinydd i egluro unrhyw ymholiadau neu faterion a allai fod gan y llywodraethwr.

Mae'r strategaeth arsylwi hon yn ddefnyddiol i helpu llywodraethwyr i ddeall gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd a chael tystiolaeth uniongyrchol o fentrau newydd. O ganlyniad, gall y llywodraethwr weithredu'n fwy effeithiol fel ffrind beirniadol i'r ysgol a chynnig her briodol.

43 Mae rhai ysgolion yn defnyddio cyfryngau digidol i gofnodi gwersi, neu rannau o wersi, i rannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol a gyda staff eraill y maent yn cydweithio â nhw, fel athrawon mewn partneriaid pontio ac ysgolion clwstwr, mewn cymunedau dysgu proffesiynol neu mewn cynadleddau 'arfer effeithiol' rhanbarthol. Mae recordiadau fideo yn symbyliad da ar gyfer darparu trafodaeth broffesiynol gan fod athrawon yn gallu gweld sut mae'r athro yn cyflwyno a datblygu agweddau ar y wers ac ymateb y disgyblion.

44 Pan ddefnyddir recordiadau ar gyfer rhannu arfer effeithiol, mae arsyllwyr yn cytuno â'r aelod o staff dan sylw ei fod yn hapus i gael ei recordio. Mae recordiadau fideo yn offeryn defnyddiol iawn hefyd ar gyfer adrodd yn ôl a thrafod gyda'r athro sy'n cael ei arsylwi, gan ei fod yn golygu y gall yr athro weld dysgu'r disgyblion nad yw bob amser yn gallu ei weld tra bydd yn addysgu neu'n cynorthwyo dysgu disgyblion. Efallai y bydd yr athro sy'n cael ei arsylwi yn dymuno gweld y wers gyfan, ond ar gyfer adrodd yn ôl a thrafod, efallai y bydd yr arsyllwr yn dymuno canolbwyntio ar agweddau penodol ar y wers yn unig. Fodd bynnag, mae defnyddio fideo yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei gefnogi gan ffurflen arsylwi sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol yr arsylwi, a lle gall yr arsyllwr gofnodi ei dystiolaeth a gall yr aelod o staff sy'n cael ei arsylwi gofnodi ei ymateb a thargedau datblygiadol a drafodwyd.

45 Nid oedd unrhyw un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystyried bod defnyddio fideo yn briodol ar gyfer arsylwadau ffurfiol, fel rheoli perfformiad neu arsylwadau monitro ysgol gyfan.

**Sut mae ysgolion yn sicrhau cysondeb a thegwch mewn arsylwadau ystafell ddosbarth?**

46 Mae bron pob un o'r ysgolion yn defnyddio graddfa arfarnol o farnau ar gyfer arsylwadau ystafell ddosbarth ffurfiol. Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn llunio barnau ar wahân am berfformiad cyffredinol dysgu'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mewn llawer o ysgolion lle mae arsylwi mewn ystafelloedd dosbarth yn fwyaf effeithiol, mae pob barn yn cysylltu â disgrifydd estynedig, sy'n egluro'r

nodweddion sy'n gysylltiedig â phob barn. Mae rhai ysgolion yn datblygu eu disgrifwyr barn estynedig eu hunain, ond mae ysgolion eraill yn defnyddio disgrifwyr barn a ddatblygwyd gan yr awdurdod lleol neu'r consortia ar y cyd ag ysgolion.

*47* Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn defnyddio'r geiriau a'r disgrifwyr barn a nodir yn arweiniad Estyn ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mewn achosion eraill, yn enwedig os yw'r ysgol yn gysylltiedig â hyfforddi athrawon, maent yn defnyddio matricsau barn a luniwyd gan y canolfannau hyfforddi athrawon am y safonau ar gyfer statws athro cymwys. Fodd bynnag, nid yw'r disgrifwyr barn sy'n ategu'r geiriau barn mewn hyfforddiant athrawon bob amser yn briodol ar gyfer athrawon mewn swydd, gan mai eu prif ddiben yw mesur cynnydd athrawon sy'n fyfyrwyr sy'n hyfforddi i ennill cymhwyster addysgu cychwynnol. Mae rhai ysgolion yn datblygu matricsau yn gysylltiedig â'r Safonau Proffesiynol Diwygiedig ar gyfer Ymarferwyr Addysg yng Nghymru (Cylchlythyr 020/2011 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym Medi 2011). Mae'r ddogfen hon yn nodi safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU), athrawon wrth eu gwaith yn ogystal â'r safonau arwain ar gyfer penaethiaid a staff. Mewn achosion eraill, mae ysgolion yn defnyddio matricsau a luniwyd gan yr ysgol neu ymgynghorwyr addysg.

**Astudiaeth achos 9: Sicrhau barnau cyson am addysgu a dysgu**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn awdurdod lleol Caerdydd yw **Ysgol Uwchradd Mair Fendigaid**. Mae gan 29% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.7%. Mae 36% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig o gymharu â 21.7% mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru

Nododd y pennaeth fod angen trafod gyda staff sut beth yw addysgu da a rhagorol, er mwyn gwella safonau cyflawniad disgyblion yn sylweddol. O ganlyniad i'r trafodaethau, cytunodd staff ar 10 nodwedd gwers 'ragorol' ac fe wnaethant gytuno i wneud "yr arfer 'orau' yn arfer bob dydd".

Dyma yw'r 10 nodwedd yr oeddent yn cytuno y byddent yn ffurfio rhan o wers ragorol:

1. cyflwyno'r 'darlun mawr' a'r amcanion mesuradwy i'r dosbarth ar ddechrau'r wers;
2. disgwyl llawer o bob disgybl yn y dosbarth;
3. ymgysylltu â, a siarad â, phob disgybl yn ystod y wers i gadarnhau eu dealltwriaeth;
4. wrth gynllunio'r wers, sicrhau bod athrawon wedi darparu ar gyfer gwahanol anghenion dysgu disgyblion trwy'r dasg a osodir, trwy'r canlyniad y bydd disgyblion yn ei gyflawni a thrwy holi effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu syniadau a'u gwaith;
5. defnyddio iaith gadarnhaol i greu amgylchedd cadarnhaol a chalonogol ar gyfer dysgu;
6. gwneud y defnydd gorau o amser a rhediad mewn gwersi;
7. defnyddio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith newydd: er enghraifft, trwy symbyliadau gweledol, sain a chinesthetig;
8. gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn gwneud cynnydd yn ystod y wers;

9 sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i wella; ac
10 adolygu'r dysgu yn rheolaidd.

I gefnogi cysondeb barn mewn arsylwadau ffurfiol, fe wnaeth yr ysgol wedyn fabwysiadu matrics gyda disgrifwyr estynedig ar gyfer barnau Rhagorol, Da, Digonol ac Anfoddhaol yn erbyn pob un o nodweddion cytûn gwers 'ragorol'.

Mae defnyddio'r matrics yn helpu uwch arweinwyr a phob un o'r staff i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd am ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'r matrics yn darparu datganiadau 'gweddu orau' sy'n galluogi arsyllwyr a'r rhai sy'n cael eu harsylwi i ddefnyddio iaith gyffredin i drafod llwyddiant y wers. Mae'r ddealltwriaeth ar y cyd hon a'r iaith gyffredin yn gyfrwng effeithiol ar gyfer uwch arweinwyr wrth safoni deilliannau arsylwadau a gosod targedau cam nesaf gyda staff.

O ganlyniad i strategaeth yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o nodweddion allweddol arfer ragorol ar fatrics ar gyfer llunio barnau, mae deilliannau disgyblion wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf.

48 Mae defnyddio disgrifwyr barn estynedig ar y cyd â geiriau barn yn hanfodol wrth helpu i sicrhau dull cyson o lunio barnau dibynadwy a dilys am addysgu a dysgu. Mae dull cyson yn helpu i sicrhau tegwch i bob un o'r staff yn y barnau sy'n cael eu llunio yn ystod arsylwadau ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, dim ond pan fydd pob un o'r staff yn deall y geiriau barn a'u disgrifwyr cysylltiedig y ceir cysondeb a thegwch.

Mewn llawer o'r enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn neilltuo amser i arsyllwyr safoni gyda'i gilydd yr arsylwadau y maen nhw wedi eu cynnal. Maent yn darparu arweiniad clir am y prif faterion i'w gwirio, ac yn bwysicaf oll, maent yn sicrhau bod sylwadau ysgrifenedig yn adlewyrchu'r disgrifydd barn a'r farn a ddyfarnwyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, er enghraifft lle mae arsylwadau yn cyfrannu at adolygiadau adrannol neu bwnc, mae uwch arweinwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhannu barn gyffredinol am gryfderau a meysydd i'w datblygu gyda staff perthnasol cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn helpu staff i flaenoriaethu eu hymdrechion, i fynd i'r afael â materion yn gyflym a darparu datblygiad proffesiynol lle bydd angen.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag ysgolion, craffu ar ddogfennau perthnasol a chyfweliadau gyda phenaethiaid, staff, disgyblion a llywodraethwyr.

Nododd arolygwyr naw ysgol gynradd a 10 ysgol uwchradd a arolygwyd yn y tair blynedd diwethaf, a gafodd farnau da neu ragorol yn y rhan fwyaf o achosion, ar gyfer:

- safonau;
- ansawdd yr addysgu;
- ansawdd yr arweinyddiaeth a gwella ansawdd; a
- rhagolygon gwella'r ysgol.

Nododd arolygwyr hefyd nifer fach o ysgolion sydd ar daith wella i godi safonau dysgu disgyblion a lle roedd ansawdd yr addysgu wedi gwella i dda neu ragorol o fod yn ddigonol yn eu harolygiad diweddaraf.

Fe wnaeth arolygwyr gyfweld hefyd â staff prifysgolion mewn adran addysg athrawon sy'n cymryd rhan mewn prosiect i wella technegau arsylwi ystafelloedd dosbarth a dwy o'u hysgolion partner.

Cynhaliwyd ymweliadau arolygwyr yn hydref 2013. Fe wnaethant ymweld ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ledled Cymru.

# Atodiad 2: Protocolau Llywodraeth Cymru ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth

## Arsylwi ystafelloedd dosbarth – Diben a phrotocolau

Gall arsylwi ystafelloedd dosbarth fod yn offeryn pwysig i godi safonau trwy gefnogi ymarferwyr i rannu a datblygu eu medrau ac felly gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Er na osodir cyfyngiad uwch ar nifer yr achlysuron y gallai arsylwi ddigwydd, mae'n hanfodol bod y pwyslais yn cael ei roi yn gadarn ar ansawdd y profiad yn hytrach na'r nifer.

I sicrhau bod arsylwi yn bwrpasol, cefnogol a datblygiadol, dylai pawb sy'n ymwneud â threfnu, cynnal neu gymryd rhan mewn arsylwi gadw at yr arweiniad canlynol, sy'n nodi diben a phrotocolau sy'n nodweddu arfer effeithiol.

## Cwmpas a diben

### Beth y mae 'Arsylwi ystafell ddosbarth' yn ei olygu?

Mae 'arsylwi ystafell ddosbarth' yn cyfeirio at yr holl achlysuron pan gaiff gweithgareddau dysgu a/neu addysgu eu harsylwi at ddiben penodol gan rywun heblaw'r athro dosbarth a'r staff cymorth sydd fel arfer wedi'u cysylltu â'r dosbarth.

## Egwyddorion a phrotocolau

Dylid cadw at yr egwyddorion canlynol wrth arsylwi ystafelloedd dosbarth:

- Dylai pawb sy'n cymryd rhan ym mhob arsylwad rannu'r un ddealltwriaeth o'i ddiben penodol. Dylid delio ag anghydfod am weithdrefnau arsylwi, ac ati, trwy brosesau datrys sefydledig yr ysgol a/neu brosesau cydnabyddedig i ddatrys problemau ar y cyd, lle bo'n berthnasol.
- Pan fydd yn ymarferol ac yn briodol, dylid gwneud ymdrechion i gyfuno arsylwadau at wahanol ddibenion fel bod y defnydd mwyaf effeithlon yn cael ei wneud o gyfleoedd ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth.
- Dylid rhoi dewis gofalus i'r arsyllwr fel ei fod yn adlewyrchu diben yr arsylwi.
- Dylai arsylwi gefnogi a datblygu dysgu ac addysgu – dylid tarfu cyn lleied ag y bo modd ar weithgarwch ystafell ddosbarth arferol.
- Dylid cynllunio arsylwadau ymlaen llaw fel bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael digon o rybudd.
- Dylai arsylwi fod yn wrthrychol, datblygiadol a chefnogol, a dylid ei gynnal gyda phroffesiynoldeb, uniondeb a chwrteisi.
- Mae angen paratoi ac ystyriaeth briodol ar gyfer arsylwi llwyddiannus.
- Fel rhan o drefniadau cyffredinol yr ysgol ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth, dylai'r rhai sy'n cymryd rhan mewn arsylwi gytuno ymlaen llaw ar natur ac amseriad unrhyw adborth a fydd yn cael ei roi, a gyda phwy y dylid ei rannu.
- Dylai trefniadau cynllunio ac adborth ystyried amser cyfeiriedig a thelerau ac amodau cyflogaeth statudol.

**Yn ychwanegol, ar gyfer arsylwadau sy'n cynnwys barnau ar berfformiad ymarferwyr unigol, dylid defnyddio'r egwyddorion canlynol hefyd:**

- Unigolyn sydd â SAC yn unig sy'n gallu arsylwi addysgu at ddiben rheoli perfformiad athrawon (gan gynnwys asesiad SAC a Rhaglen Athrawon Graddedig) ac fel rhan o weithdrefnau gallu.
- Dylid pennu natur, diben a nifer yr arsylwadau yn ogystal â'r meysydd i ganolbwyntio arnynt mewn cyfarfod cynllunio.
- Bydd angen sicrhau cydbwysedd da yng nghwmpas yr addysgu sy'n cael ei arsylwi i adlewyrchu ystod gwaith athro, ond ni ddylai'r cyfanswm fod yn ormodol.
- Mae'n bwysig nad yw lefel yr arsylwi yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol er mwyn dod i ddyfarniad cadarn ar sail tystiolaeth, gan fod cynnal sesiynau yn rhy aml yn amharu ar y gwersi ac yn wrthgynhyrchiol.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus yn y cyfarfod cynllunio i amseriad y sesiynau arsylwi a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd. Gallai'r gofyniad hwn hefyd gynnwys gofynion y gwerthuswr i baratoi, cynnal ac adrodd yn ôl yn ddigonol ar bob sesiwn. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion, bydd rhai gwerthuswyr, er enghraifft, yn cysylltu pob sesiwn â thoriadau naturiol yn y flwyddyn academaidd, fel tymhorau.
- Dylid rhoi o leiaf pum diwrnod o rybudd ynghylch arsylwi ar gyfer hyn.
- Mae'n bwysig bod y sesiynau sy'n cael eu harsylwi yn mynd rhagddynt mewn awyrgylch mor normal ag y bo modd.
- Dylid rhoi adborth llafar adeiladol bob amser cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arsylwi a chadarnhau yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith. Dylid rhoi cyfle i athrawon ychwanegu eu sylwadau ysgrifenedig eu hunain at yr adborth hwn hefyd. Dylai pawb sy'n gallu mynd at y wybodaeth a gafwyd o'r broses hon barchu'r cyfrinachedd hwn a sicrhau bod darpariaethau Deddf Diogelu Data 1988 yn cael eu dilyn ar bob adeg.

## Dibenion arsylwi ystafelloedd dosbarth

Gellir grwpio dibenion arsylwi o dan y meysydd canlynol (nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr neu'n unffurf o reidrwydd).

1 **Arsylwi dysgu** dysgwyr unigol a/neu grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft:

- olrhain cynnydd unigolion a/neu grwpiau ar draws y cwricwlwm
- profiadau dysgwyr mewn lleoliadau gwahanol
- codi ymwybyddiaeth ar gyfer llywodraethwyr

2 Fel rhan o **ddatblygiad proffesiynol parhaus**, er enghraifft:

- rhannu arfer effeithiol
- dysgu ar y cyd a datblygiad cydweithredol
- arsylwi cymheiriaid
- fel rhan o drefniadau hyfforddi a mentora
- arweiniad neu gyngor arbenigol – er enghraifft ar dechnegau addysgu, meysydd cwricwlwm, defnyddio offer TGCh, ac ati.

3 **Monitro ansawdd yr addysgu**, gan gynnwys:

- fel rhan o'r cylch rheoli perfformiad blynyddol fel y'i diffinnir ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr ysgol
- fel rhan o weithdrefnau gallu fel y'u diffinnir ym Mholisi Gallu'r ysgol
- fel rhan o'r broses ymsefydlu statudol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso (ANGau) fel y'i diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru
- fel rhan o'r Rhaglen Athrawon Graddedig (neu drefniadau derbyn eraill ar gyfer athrawon) fel y'i diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru
- at ddibenion llunio barnau am addysgu a dysgu yn yr ysgol yn gyffredinol
- fel rhan o drefniadau arolygu.

## Atodiad 3: Gwahanol fathau o arsylwi ystafelloedd dosbarth

### Rhannu arfer effeithiol ymhlith staff

Mae’r math hwn o arsylwi fel arfer yn digwydd lle mae uwch arweinwyr neu arweinwyr canol wedi nodi arfer effeithiol trwy fathau eraill o arsylwi ac yn barnu y byddai staff eraill yn yr ysgol yn elwa ar weld yr arfer hon. Mewn llawer o achosion effeithiol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn amserlennu’r sesiwn arsylwi a sesiwn lle gall yr arsyllwr a’r aelod o staff sy’n cael ei arsylwi drafod y wers cyn ac ar ôl y digwyddiad. Mewn achosion eraill, gallai staff drefnu eu sesiynau eu hunain yn sgil trafodaethau ystafell staff am syniadau addysgu yn cael effaith fuddiol ar ddysgu disgyblion.

### Datblygu dulliau addysgu penodol, medrau a ffyrdd arloesol o addysgu

Mae arsylwi’n digwydd yn yr amgylchiadau hyn amlaf pan fydd uwch arweinwyr yn ceisio gwella arfer ar draws yr ysgol gyfan, neu pan fydd aelodau o gymuned ddysgu broffesiynol yn ceisio mesur effaith ffyrdd newydd o weithio yn yr ystafell ddosbarth. Pan fydd uwch arweinwyr yn ceisio datblygu cysondeb gwell mewn addysgu ar draws yr ysgol, gallent ofyn i aelodau staff weithio mewn parau neu grwpiau o dri i ddangos ffyrdd penodol o weithio gyda’i gilydd, neu gallent ddod ag ymgynghorydd yno i ddangos syniadau penodol. Yn yr achosion hyn, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod cynllunio yn ei le i roi amser i staff drafod y wers cyn ac ar ôl yr arsylwi yn ogystal â sicrhau amser ar gyfer yr arsylwi ei hun. Pan fydd staff yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol, bydd staff yn y gymuned broffesiynol yn aml yn trefnu eu hamser eu hunain i arsylwi a datblygu eu syniadau.

### Sicrhau ansawdd amser tiwtoriaid dosbarth mewn ysgolion uwchradd

Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr yn monitro’r amser y mae disgyblion yn ei dreulio mewn dosbarthiadau gyda’u tiwtor ar ddechrau’r dydd. Yn yr ysgolion hyn, ceir rhaglen glir o ddysgu personol i staff ei chyflwyno yn y cyfnod tiwtor dosbarth. Ffocws yr arsylwadau yw barnu i ba raddau y ceir darpariaeth deg ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr neu benaethiaid blwyddyn fel arfer yn cynnal yr arsylwadau hyn yn dilyn rhaglen gynlluniedig ac ar y cyd.

### Sicrhau ansawdd darpariaeth oddi ar y safle y mae gan yr ysgol gyfrifoldeb amdani, er enghraifft darpariaeth 14-19

Mae bron pob ysgol uwchradd yn cydnabod bod yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am ei disgyblion ac am eu profiadau dysgu pan fydd disgyblion yn mynd oddi ar y safle i ddarparwyr eraill i ddysgu fel rhan o ddarpariaeth 14-19. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn datblygu arferion arsylwi ar y cyd gyda’u cydweithwyr mewn sectorau eraill, fel colegau addysg bellach, lle mae disgyblion yn mynychu fel rhan o’u dysgu 14-19. Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr neu benaethiaid blwyddyn o’r ysgol uwchradd wedi dyfeisio offer arsylwi cyffredin. Maent yn cynnal arsylwadau ar y cyd o’r ddarpariaeth ac yn safoni eu barnau am y dysgu a’r addysgu gyda’i gilydd. Maent yn rhoi adborth ar y cyd i’r darlithydd ar ôl yr arsylwi.

## Rhannu arfer effeithiol gydag ysgolion eraill

Mae ysgolion yn rhannu arfer effeithiol yn gynyddol gydag ysgolion eraill yn eu hardal leol trwy eu clwstwr o ysgolion lleol, neu yn ehangach trwy'r teulu o ysgolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae uwch arweinwyr yn cynllunio ymweliadau ag ysgolion eraill yn ofalus fel bod yr amser yn cael ei ddefnyddio'n dda. Mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn aml yn nodwedd ar ymweliadau o'r fath. Mewn llawer o'r achosion gorau, nid yw athrawon yn arsylwi dosbarthiadau eraill yn unig, ond neilltuir amser iddynt drafod yr arsylwi gyda'r athro a'r disgyblion. I sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o'r profiad wedi iddynt fynd yn ôl i'r ysgol, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod amser yn cael ei drefnu lle gall yr athro rannu'r profiad gyda staff eraill, er enghraifft trwy gyfarfod staff.

## Datblygu agweddau ar arfer gydag athrawon trwy gymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol

Mae datblygu cymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol yn helpu ysgolion i ddatblygu arfer addysgu effeithiol sy'n codi safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r dull hwn yn aml yn helpu pob aelod o staff i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o addysgu effeithiol. Pan fydd staff yn cydweithio mewn grŵp proffesiynol, mae'n eu helpu i fyfyrio'n fwy gofalus ar eu gwaith a gweld eu hunain fel rhan o dîm yn gweithio tuag at nod ar y cyd. Pan fydd athrawon yn trefnu'r gymuned ddysgu broffesiynol yn dda trwy osod nodau clir a chyfnodau i gwblhau'r gwaith, mae staff yn cael mwy o foddhad o weithio yn y proffesiwn. Mewn llawer o achosion, mae ffurflenni arsylwi ystafell ddosbarth yn ffurfio rhan o weithgareddau'r gymuned ddysgu broffesiynol. Mewn llawer o'r achosion mwyaf effeithiol, mae aelodau'r gymuned yn cytuno ar egwyddorion cyffredin am arsylwadau ac yn sicrhau eu bod yn creu ffurflen arsylwi ystafell ddosbarth yn benodol ar gyfer eu hanghenion. Tra bydd aelodau'r gymuned ddysgu broffesiynol yn datblygu cynlluniau arsylwi, mae'r unigolyn arweiniol fel arfer yn cysylltu ag uwch arweinwyr i roi'r amserlen arsylwi ar waith o fewn cyfnod penodol.

## Deall arfer effeithiol mewn sectorau eraill: cynradd/uwchradd, uwchradd/addysg bellach

Mae'r math hwn o arsylwi yn digwydd pan fydd ysgolion yn ceisio lleihau'r bwlch rhwng sectorau. Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn datblygu trefniadau ar y cyd lle maent yn ceisio gwneud y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn brofiad esmwyth i ddisgyblion, nid yn unig o ran systemau gweinyddol, ond hefyd o ran dysgu. I wneud hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd sy'n bwydo yn cysylltu â'u hysgolion uwchradd lleol i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau pontio yn ystod tymor olaf Blwyddyn 6. Mae athrawon o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn manteisio ar y cyfle i arsylwi ei gilydd yn addysgu dosbarthiadau Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Mae hyn yn helpu athrawon i ddeall sut gallai addysgu fod yn wahanol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a cheisio cau'r bwlch rhwng y ddau sector ar gyfer eu disgyblion. Mewn rhai achosion, mae ysgolion uwchradd yn gweithio gyda cholegau addysg bellach a phrifysgolion i helpu disgyblion Blwyddyn 13 i symud yn ddidrafferth i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

## Mentora a hyfforddi athrawon mewn swydd, staff cymorth ac athrawon dan hyfforddiant

Pan fydd uwch arweinwyr wedi nodi bod angen gwella ansawdd yr addysgu mewn dosbarth, maent yn aml yn trefnu bod staff sy'n dangos cryfder yn y maes pryder yn darparu rhaglen gynlluniedig o gyfleoedd mentora neu hyfforddi. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth lle mae'r arsyllwr yn cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth o'r athro dros nifer o sesiynau ac yn rhoi adborth sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol ac yn osgoi unrhyw farn ar ansawdd yr addysgu. Nodwedd allweddol y math hwn o arsylwi ystafelloedd dosbarth ac adborth yw'r cyfle i'r athro sy'n cael ei arsylwi wella'i arfer trwy ddeialog broffesiynol gyda chydweithiwr. Mewn mentora, mae'r ffocws ar gyfnewid syniadau, tra bod y ffocws mewn hyfforddi ar yr arsyllwr yn holi cwestiynau ac yn galluogi'r aelod o staff i ddatblygu ei arfer ei hun trwy fyfyrio ac arbrofi. Bydd y dechneg a ddefnyddir yn dibynnu ar ble mae'r aelod o staff sy'n cael ei arsylwi arni o ran ei ddatblygiad proffesiynol ei hun.

Mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, mae mentoriaid yn arsylwi athrawon dan hyfforddiant yn rheolaidd iawn yn unol â gofynion y ganolfan hyfforddi athrawon. Mae adborth yn y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar hyfedredd cynyddol yng ngallu'r hyfforddeion i fod yn gymwys i gyflawni'r safonau ar gyfer statws athro cymwys. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, wrth i alluoedd yr hyfforddeion ddatblygu, mae mentoriaid yn symud o ddarparu adborth i helpu hyfforddeion i fyfyrio ar eu harfer eu hunain a'i datblygu, trwy gwestiynu medrus.

## Tiwtoriaid yn arsylwi athrawon sydd newydd gymhwyso a'r rhai sy'n dilyn y Rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i athrawon sydd newydd gymhwyso barhau â'u dysgu proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa trwy gymhwyster y Rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Ffocws allweddol y radd uwch yw bod athrawon yn eu blynyddoedd cynnar yn y proffesiwn yn sicrhau datblygiad cyflym ac effeithiol mewn ymarfer addysgol trwy arsylwi rheolaidd ac astudio pellach. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn allanol i'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi'r athro yn unol â'r rhaglen.

## Helpu llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddysgu disgyblion a bywyd a gwaith yr ysgol trwy brofiad uniongyrchol

Mae gan lywodraethwyr rôl bwysig mewn goruchwylio a llywio cyfeiriad yr ysgol. Er bod llywodraethwyr yn dod â llawer o fedrau i ysgol, mewn llawer o achosion, nid oes ganddynt ddealltwriaeth fanwl o waith ysgolion o ddydd i ddydd. I'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth, mae bron pob un o'r llywodraethwyr yn ymgymryd â rôl sy'n eu cysylltu â maes o waith yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n gyffredin erbyn hyn i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) a mynd ar 'daith ddysgu' neu arsylwi gwers ochr yn ochr ag uwch aelod o staff sy'n esbonio agweddau ar yr ystafell ddosbarth wrthynt. Mae'r ymweliadau hyn yn fwyaf effeithiol pan fydd gan y llywodraethwr amserlen arsylwi â ffocws da. Mae casglu tystiolaeth uniongyrchol yn helpu llywodraethwyr i ddeall cymhlethdod gwaith yr ysgol a llunio barnau mwy gwybodus am faterion sy'n cael eu codi yn y corff llywodraethol.

### Sefydlu ansawdd addysgu ymgeisydd wrth wneud cais am swydd yn yr ysgol

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid wedi cyflwyno gweithgaredd arsylwi yn y gweithdrefnau dewis ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer i'w helpu i lunio barn wybodus am ansawdd addysgu'r ymgeisydd. Mewn llawer o achosion, mae ymgeiswyr yn addysgu gwers i ddosbarth yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfweliad. Mae penaethiaid yn ceisio ystyried nad yw'r ymgeiswyr wedi cael cyfle i sefydlu perthynas addysgu gyda'r disgyblion yn yr ysgol. Mae'n well gan benaethiaid eraill ymweld ag ysgolion yr ymgeiswyr er mwyn eu gweld yn addysgu mewn cyd-destun sy'n fwy cyfarwydd i'r ymgeiswyr. Mae llawer o benaethiaid yn y ddwy sefyllfa yn gofyn am adborth gan ddisgyblion ynglŷn â'u hargraffiadau o'r wers. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn teimlo bod y dystiolaeth uniongyrchol a gânt o'r dasg arsylwi yn eu helpu i benodi staff addysgu effeithiol.

### Olrhain disgyblion unigol i arsylwi eu profiadau dysgu a'u cynnydd

Cynhelir trywyddau disgyblion unigol am amrywiaeth o resymau. Y rhesymau mwyaf cyffredin yw monitro'r gweithgareddau y mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion mwy galluog a dawnus yn eu profi mewn diwrnod. Mae'r ffocws ar ddysgu'r disgybl a'r ffordd y mae'n rhyngweithio gyda disgyblion eraill yn y dosbarth. Mae'r math hwn o arsylwi ystafelloedd dosbarth yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gan ei fod yn eu helpu i nodi'r mathau o weithgareddau dysgu sy'n gweddu orau i anghenion dysgu disgyblion a ph'un a yw disgyblion yn cael digon o heriau priodol yn eu gwaith. Yn unol â cheisiadau'r ganolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon, mae uwch fentoriaid yn aml yn trefnu trywyddau disgyblion ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ar ddechrau eu hyfforddiant. Mae hyn yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall sut mae disgyblion unigol yn profi'r diwrnod ysgol ac arsylwi'r mathau o weithgarwch dysgu y maent yn ymateb iddynt orau.

### Monitro ymddygiad disgyblion

Mewn rhai ysgolion, gall ymddygiad disgyblion fod yn heriol. Yn yr ysgolion hyn, i gefnogi staff a gwella ymddygiad disgyblion, mae uwch arweinwyr yn monitro ymddygiad disgyblion trwy ystod o ffyrdd; er enghraifft, nodi sawl gwaith y mae'n rhaid i athro dynnu disgybl o ddosbarth. Mae uwch arweinwyr yn monitro ymddygiad disgyblion hefyd trwy deithiau wedi'u cynllunio o gwmpas yr ysgol, gan sicrhau ymddygiad da o gwmpas yr ysgol ac mewn dosbarthiadau. Mae staff yn gwybod am raglen y teithiau ymlaen llaw ac maent yn gwybod bod uwch arweinwyr yno i'w cynorthwyo pan fydd ymddygiad disgyblion yn heriol.

### Monitro amcanion yr ysgol

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, mae uwch arweinwyr yn cynllunio amseroedd penodol i fonitro cynnydd tuag at dargedau yng nghynllun gwella'r ysgol. Ni fydd holl fonitro amcanion yr ysgol yn cynnwys arsylwi ystafelloedd dosbarth. Gallai uwch arweinwyr ddefnyddio offer monitro arall, neu gyfuniad o offer, fel craffu ar lyfrau neu holiaduron disgyblion. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, bydd monitro yn cynnwys arsylwi ystafelloedd dosbarth; er enghraifft os yw ysgol yn ceisio gwella technegau asesu ar gyfer dysgu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

### Adolygiadau pwnc/adran/grŵp blwyddyn

Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhelir adolygiadau o bynciau, medrau, meysydd dysgu neu grwpiau blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac adolygiadau adrannol a grŵp blwyddyn mewn ysgolion uwchradd fel rhan o raglen adolygu barhaus dros nifer o flynyddoedd. Mae uwch arweinwyr yn enwebu meysydd neu agweddau penodol ar yr ysgol ar gyfer adolygiadau yn y flwyddyn academaidd. Yn ystod yr adolygiad, mae uwch arweinwyr yn edrych ar berfformiad yn y maes yn gyffredinol ac maent hefyd yn benodol yn bwriadu adolygu perfformiad mewn perthynas â thargedau ysgol gyfan sydd wedi'u nodi yng nghynllun gwella'r ysgol. Mewn llawer o achosion, nid yw'r tîm adolygu yn cynnwys uwch arweinwyr sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell yn unig, ond mae'n cynnwys rheolwyr canol o feysydd eraill yr ysgol hefyd. Mae hyn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyson o ddisgwyliadau a pherfformiad yr ysgol.

### Adolygiad ysgol

Cynhelir adolygiad ysgol gan amlaf pan fydd uwch arweinwyr eisiau adolygu gwaith yr ysgol a phennu llwyddiant strategaethau penodol. Mae'r ysgol fel arfer yn cynnal y math hwn o adolygiad gyda'r awdurdod lleol gan ei fod yn galluogi'r awdurdod lleol i ddiweddaru ei ddealltwriaeth o gynnydd yr ysgol a ph'un a oes angen darparu unrhyw lefel o gymorth. Mewn rhai achosion, pan fydd angen codi lefelau perfformiad yn yr ysgol, mae penaethiaid yn dod â gwasanaethau ymgynghorydd i'r ysgol i ddarparu barn allanol annibynnol ar waith yr ysgol. Yn ogystal â chraffu ar ddata cyrhaeddiad disgyblion a chynlluniau a dogfennau'r ysgol, mae adolygwyr yn arsylwi ystafelloedd dosbarth hefyd i ddarparu tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu.

### Rheoli perfformiad

Mae'r math hwn o arsylwi yn digwydd fel rhan o'r adolygiad blynyddol o berfformiad staff. Mae'n canolbwyntio ar dargedau rheoli perfformiad ysgol gyfan ac unigolion lle mae'r rhain yn ymwneud â chodi safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r arsylwi yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae cynllunio, addysgu ac asesu yn effeithio ar safonau cyflawniad disgyblion. Mae deilliannau arsylwadau rheoli perfformiad yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall cryfderau staff unigol a'u meysydd i'w datblygu, tra bod y deilliannau ysgol gyfan, a gafwyd trwy gasglu'r negeseuon cyffredinol o arsylwadau unigol, yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu ar gyfer y staff yn gyffredinol.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Fiona Arnison | Tîm yr arolwg |
| Meinir Howells | Tîm yr arolwg |